

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI 2025/2026

CYNNWYS

GWYBODAETH	2
GAIR GAN GADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL	3
Y CORFF LLYWODRAETHOL	5
STAFF	7
ADRODDIAD 2025/26	9
DYDDIADAU BLWYDDYN ACADEMAIDD 2026/27	12
DATGANIADAU ARIANNOL LLAWN 2025/26	13
GAIR I GLOI	15

GWYBODAETH

Ysgol gynradd benodedig Gymraeg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.

Nifer y disgyblion ar y gofrestr ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2025/26 oedd 173.

Cyfeiriad
18 Stryd Rhosmaen, Llandeilo SA19 6LU

Ffôn
(01558) 823489

Ebost
admin@teilosant.ysgolccc.cymru

Gwefan
ysgolteilosant.cymru

GAIR GAN GADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Y CORFF LLYWODRAETHOL

Mae'n fraint cyflwyno Adroddiad Blynyddol eleni yn dilyn fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Teilo Sant. Mae ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn wedi rhoi gwerthfawrogiad hyd yn oed yn ddyfnach i mi o'r ymroddiad, y gofal a'r gwaith caled sy'n sail i'n hysgol. Hoffwn ddiolch i'm cyd-lywodraethwyr, Mr Jones a thîm cyfan yr ysgol am eu croeso a'u cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

Mae llawer i ymfalchïo ynddo yn Teilo Sant. Mae ein hysgol yn darparu cymuned lle gall plant ddysgu, magu hyder a datblygu ymdeimlad cryf o berthyn, gyda'r Gymraeg a diwylliant Cymru wrth ei chalon. Mae ehangder y profiadau a adlewyrchir yn yr adroddiad hwn yn dangos ymrwymiad ein staff i helpu pob plentyn i ddarganfod eu diddordebau a chyflawni eu potensial. Roedd yr adborth cadarnhaol a gafwyd yn ystod yr ymweliad interim gan Estyn tua diwedd tymor yr haf yn gydnabyddiaeth arbennig o waith diflino staff yr ysgol.

Fodd bynnag, mae hon wedi bod yn flwyddyn heriol yn ariannol. Mae'r hinsawdd gyllido anodd sy'n wynebu ysgolion yn rhoi pwysau sylweddol ar gyllidebau, staffio ac adnoddau, ac nid yw Teilo Sant yn eithriad. Mae'r diffyg a adroddir yn y cyfrifon hyn yn fater yr ydym yn ei gymryd o ddifrif. Fel llywodraethwyr, ein cyfrifoldeb yw darparu cefnogaeth a her adeiladol, gan gadw cynaliadwyedd ariannol yr ysgol mewn golwg tra'n sicrhau bod addysg, diogelwch a lles y plant wrth wraidd ein penderfyniadau. Nid oes atebion hawdd, ond rydym yn parhau'n ymrwymedig i weithio'n agos gydag arweinyddiaeth yr ysgol i fynd i'r afael â'r pwysau hyn mewn ffordd ystyriol a chyfrifol.

Hoffwn dalu teyrnged arbennig i Mrs Roberts, a ddaeth â'i chyfnod yn yr ysgol i ben yn ystod y flwyddyn. Ar ran pob aelod o'r Corff Llywodraethu, diolch am eich gwasanaeth arbennig i Deilo Sant. Mae eich ymroddiad i'r plant, eich gofal a'ch cyfraniad at fywyd yr ysgol wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae dylanwad athrawes ymroddedig yn ymestyn ymhell y tu hwnt i furiau'r dosbarth, gan barhau yng nghyfrifoldebau, chwilfrydedd ac atgofion y plant y mae wedi'u haddysgu. Mae Mrs Roberts yn gadael gyda'n diolch diffuant ac â'n dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol. Diolch o galon am bopeth.

Ar ran yr holl lywodraethwyr, hoffwn hefyd estyn ein diolch diffuant i Mr Jones, y tîm arweinyddiaeth a phob aelod o staff. Mae eich proffesiynoldeb a'ch parodrwydd i fynd i'r eithaf yn gwneud gwahaniaeth dyddiol i'n plant, yn enwedig yn ystod cyfnod mor heriol.

I'n rhieni a'n gofalwyr, diolch am eich ymddiriedaeth a'ch cefnogaeth barhaus. I'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRhA), y gwirfoddolwyr a'r gymuned ehangach, diolch am

yr amser, yr egni a'r haelioni rydych yn eu rhoi mor hael. Mae eich cyfraniad yn cyfoethogi bywyd yr ysgol mewn ffyrdd na ellir eu mesur yn syml mewn termau ariannol.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'm cyd-lywodraethwyr am eu hymrwymiad, eu profiad a'u cyfraniad ystyriol drwy gydol fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd. Yn bwysicach oll, diolch i'n disgyblion, y mae eu brwdfrydedd, eu caredigrwydd a'u cyflawniadau yn rhoi pwrpas i bopeth a wnawn.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae ein huchelgais ar y cyd yn parhau'n glir, sicrhau bod Teilo Sant yn parhau i fod yn ysgol Gymraeg groesawgar, ofalgar ac ysbrydoledig lle mae pob plentyn yn cael y cyfle i ffynnu.

Yn gywir,

Will Lloyd Davies
Cadeirydd y Llywodraethwyr
Ysgol Gymraeg Teilo Sant

AELODAU'R CORFF LLYWODRAETHOL

Enw	Statws	Dyddiad Terfynu
Mr Will Lloyd Davies- Cadeirydd	Rhiant Lywodraethwr	31/03/2027
Mr Emyr Davies– Is-Gadeirydd	Cynrychiolydd Awdurdod Lleol	31/03/2027
Mr Rob Walters	Cynrychiolydd Cymunedol	09/02/2026
Mrs Carys Davies	Rhiant Lywodraethwr	23/05/2028
Mr Ioan Jones	Pennaeth	Parhaol
Mrs Ann Jones	Cynrychiolydd Awdurdod Lleol	18/07/2028
Miss Rachel Adams	Rhiant Lywodraethwr	02/02/2029
Mrs Carys Edwards	Rhiant Lywodraethwr	02/12/2029
Mrs Catrin Small	Cynrychiolydd Cymunedol	09/04/2027
Mrs Cassie Greville	Rhiant Lywodraethwraig	30/03/2029
Mr Llŷr Davies	Cynrychiolydd Cymunedol	28/06/2027
Mr Alex Cook	Cynrychiolydd Cymunedol	23/11/2029
Y Cynghorydd Sian Lewis	Cynrychiolydd Cymunedol Ychwanegol	16/06/2029
Mr Aled Prytherch	Staff Dysgu	10/10/2028
Mrs Nia Brisco	Staff Dysgu	20/12/2029
Ms Lowri Jones	Staff heb fod yn Dysgu	24/09/2027

CADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Mr Will Lloyd Davies
d/o Ysgol Gymraeg Teilo Sant
18 Stryd Rhosmaen
Llandeilo
SA19 6LUwill.lloyddavies@teilosant.ysgolccc.cymru

CYFANSODDIAD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Ceir trawstoriad o'r gymuned leol ar Gorff Llywodraethol yr Ysgol ac fe etholir y Cadeirydd ar ddechrau pob blwyddyn academaidd newydd. Mae'r Corff Llywodraethol llawn yn cyfarfod unwaith bob tymor ac mae'r Pennaeth yn paratoi adroddiadau manwl i'w trafod sy'n cynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion, datblygiadau cwricwlaidd a materion staffio, ayb. Mae gan y Corff Llywodraethol ddau is-bwyllgor sydd hefyd yn cwrdd yn dymhorol neu'n amlach os oes galw, sef:

- Is-bwyllgor Cyllid ac arweinyddiaeth (Cadeirydd: Mr Emyr Davies)
- Is-bwyllgor Dysgu ac Addysgu (Cadeirydd: Mrs Carys Davies)

Mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn aelodau ar o leiaf ddau o'r Is-bwyllgorau uchod yn unol â'u profiad ac arbenigedd.

COSTAU LLYWODRAETHWYR

Ni hawliwyd costau gan unrhyw Lywodraethwr yn 2025/26.

RHIANT LYWODRAETHWYR

Pan fod angen ethol rhiant lywodraethwyr, dosberthir ffurflenni ethol i bob rhiant yn yr Ysgol a lle ceir mwy nag un enwebiad cynhelir etholiad. Rhieni sy'n enwebu ac ethol rhiant lywodraethwyr.

CYFARFODYDD

Ni chynhelir cyfarfod blynyddol i rieni bellach, oni bai bod rhieni eisiau cynnal cyfarfod. Mae hawl cynnal tri chyfarfod bob blwyddyn trwy gyflwyno deiseb gyda 10% o rieni'r ysgol yn arwyddo'r ddeiseb a nodi pam maent eisiau cynnal cyfarfod. Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfod gyda rhieni o dan adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ystod y cyfnod dan sylw.

CWYNION

Mae gan yr Ysgol bolisi cwynion a gweithredir yn unol â'r polisi hwn. Gellir cael copi o'r polisi o'r ysgol neu o wefan yr ysgol.

POLISÏAU

Cafodd nifer o bolisïau eu hadolygu a'u diweddaru gan y corff llywodraethol yn ystod y cyfnod dan sylw ac mae'r rhain i'w gweld ar y wefan yr ysgol. Gellid cysylltu â'r swyddfa am unrhyw bolisïau eraill.

CYSYLLTU

Os oes gennych unrhyw ymholiad neu sylwad yr hoffech ei holi neu rannu gyda'r Corff Llywodraethol, mae croeso i chi ysgrifennu at y Cadeirydd trwy lythyr i swyddfa'r ysgol neu e-bost. Croesawn eich cyfraniad bob amser.

STAFF

(Cywir ar 31/08/2026)

PENNAETH

Mr Ioan Jones

PENNAETH CYNORTHWYOL

Mrs Maureen Williams

ATHRAWON

Mr Aled Prytherch (Aelod o'r Uwch Dîm Rheoli) (Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol)
Mrs Siwan Roberts (Aelod o'r Uwch Dîm Rheoli)
Mrs Elen Donath 0.8
Mrs Sara Jones 0.6
Mrs Nia Brisco
Mr Ryan John 0.6

CYNORTHWYWR DOSBARTH

Mrs Andrea Evans 0.4
Miss Emily Smith 0.6
Mrs Avril Desvaux de Merigny
Ms Amanda Jones 0.6
Mrs Heather Davies 0.9
Mrs Meryl Thomas 0.9
Mrs Nerys Davies
Mrs Nerys Howell

ATHRAWON PERIPATETIG

Mrs Angharad Morgan (Ffidl)
Mr Chris Potter (Pres)
Mr Jonathan Morgan (Canu)
Mr Richard Walters (Gitâr)
Mr Andy Jackson (Chwythbrennau)

SWYDDOG GWEINYDDOL

Miss Lisa Roberts

CLERC I'R CORFF LLYWODRAETHOL

Mrs Lynwen Davies (Cyngor Sir Gâr)

GOFALYDD

Mrs Manher Hwangbo

CYNORTHWYWYR AWR GINIO

Miss Samantha Dyer
Ms Emma Matthews
Cynorthwywyr Dosbarth

ADRODDIAD 2025/26

CATEGORI IAITH A'R DEFNYDD O'R GYMRAEG GAN DDISGYBLION

Ysgol Gymraeg yw Teilo Sant, ac felly Cymraeg yw iaith yr Ysgol o ddydd i ddydd. Y nod yw sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys sy'n berthnasol i'w hoed er mwyn eu galluogi i fod yn aelod cyflawn o gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Cymraeg yw iaith naturiol cyfathrebu'r ysgol, a chynhelir gwasanaethau a gweithgareddau ysgol yn bennaf yn y Gymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith â'r llall.

DISGYBLION AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Caiff y disgyblion hyn gymorth da a phriodol o fewn yr ysgol gan gynorthwywyr profiadol. Mae'r oriau o gymorth a dderbyniant yn amrywio yn unol â'u anghenion unigol. Darperir Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer holl ddisgyblion sydd ar gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol ac adolygir y rhain yn dymhorol.

NEWIDIADAU I'R PROSBECTWS

Mae newidiadau i Staff, Llywodraethwyr, Cymdeithas Rieni ac Athrawon yn cael eu gwneud yn ôl yr angen.

IECHYD A DIOGELWCH

Rydym yn dilyn trefniadau diogelwch tynn yn ddyddiol. Rydym yn dilyn cyfarwyddyd oddi wrth yr awdurdod lleol pa bai unrhyw bryderon yn codi.

CYFLEUSTERAU'R TOILEDAU

Mae toiledau ar gyfer pob dosbarth. Darperir sebon a phapur sychu dwylo. Caiff y toiledau eu glanhau'n ddyddiol.

BWYTA AC YFED YN IACH

Mae ffynnon ddŵr wedi'i lleoli ar bwys yr ystafell athrawon sy'n caniatáu mynediad at ddŵr yfed i'r disgyblion. Mae'r plant yn cael eu hybu i fwyta'n iach ac mae bwydlen cinio ysgol yn unol â darpariaeth bwyta'n iach yr Awdurdod Lleol. Mae'r plant yn dysgu am bwysigrwydd bod yn iach fel rhan annatod o gwricwlwm yr ysgol.

CWRICWLWM

Fel cymuned ysgol rydym yn darparu addysg o ansawdd uchel gan sicrhau profiadau addysgiadol cyfoethog er mwyn datblygu'r disgybl cyflawn. I wneud hyn rydym yn datblygu'r pedwar diben fel edafedd aur trwy holl weithgarwch yr ysgol er mwyn rhoi'r cyfle i bob plentyn ddatblygu i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Defnyddir fframweithiau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol cenedlaethol er mwyn datblygu sgiliau'r dysgwyr gan ddatblygu eu dealltwriaeth a gwybodaeth yn draws gwricwlaidd. Gwneir hyn trwy ddilyn themâu gan gynnwys llais y disgyblion ar y daith o gynllunio ar gyfer y chwe maes dysgu a phrofiad y cwricwlwm newydd, sef:

- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Lles
- Dyniaethau
- Celfyddydau Mynegiannol

Rydym yn asesu a thracio cynnydd disgyblion ym mhob agwedd o'u gwaith gan ddarparu adborth adeiladol i ddisgyblion ar eu cynnydd a chyfleoedd pwrpasol iddynt ymateb i adborth yr athrawon er mwyn gwella eu gwaith a datblygu eu cynnydd. Addysgir disgyblion yr ysgol fesul blwyddyn yn ôl eu hoedran.

CYNLLUN DATBLYGU'R YSGOL

Fel ysgol rydym yn ymwneud â phroses o hunan arfarnu cyson o ran pwyso a mesur beth sydd yn gweithio'n dda a'r hyn sydd angen datblygu'n ymhellach. Yn dilyn y broses yma rydym yn gweithio ar Gynllun Datblygu Ysgol, dogfen fyw sy'n cael ei gweithredu'n barhaol trwy'r flwyddyn. Mae'r ddogfen yn nodi ble ydyn ni ar hyn o bryd, yr hyn sydd angen datblygu, sut, ac yna mesur yr effaith.

PRIF FLAENORIAETHAU 2025/2026

1. Cryfhau uwch sgiliau darllen ar draws y cwricwlwm er mwyn datblygu dealltwriaeth a medrau darllen gan gefnogi pob disgybl i ffynnu fel darllenydd annibynnol.
2. Grymuso'r disgylion drwy brofiadau awyr agored i wreiddio'r 4 diben ac hybu llythrennedd corfforol drwy chwarae.
3. Cryfhau ymhellach cywirdeb ac effaith ein prosesau hunanwerthuso drwy gymryd rhan mewn cydweithio strwythuredig a monitro cyfochrog gyda ysgolion eraill.

PRIF FLAENORIAETHAU 2026/2027

1. Datblygu diwylliant darllen cadarnhaol ar draws yr ysgol, gan hyrwyddo mwynhad a hyder mewn darllen ymhlith disgyblion. Cryfhau dealltwriaeth rhieni o bwysigrwydd ymwybyddiaeth ffonolegol drwy ddarparu arweiniad, adnoddau a chyfleoedd i'w cefnogi wrth ddatblygu medrau darllen eu plant.
2. I wella ymgysylltiad, cymhelliant a hunanreolaeth disgyblion drwy gyflwyno darpariaeth gwaith coed strwythuredig, gan dargedu'n benodol ddisgyblion sy'n ei chael hi'n anodd ymgysylltu â dysgu yn yr ystafell ddosbarth.
3. Dyfnhau datblygu medrau disgyblion ar draws Cam Cynnydd 1 a 2, gan sicrhau dilyniant a throsglwyddiad esmwyth o Gwricwlwm nas Cynhelir i Gwricwlwm i Gymru trwy ddefnyddio'r tri galluogydd yn bwrpasol i greu profiadau dysgu dilys sy'n cefnogi cynnydd a datblygiad pob dysgwr.
4. Gwella safonau mathemateg ar draws yr ysgol drwy weithredu dull Mathemateg Singapore (Meistrolaeth), gan ddatblygu dealltwriaeth gysyniadol ddofn, rhesymu a medrau datrys problemau disgyblion drwy addysgu cyson o ansawdd uchel a dylunio cwricwlwm blaengar.

PRESENOLDEB YN YSGOL GYMRAEG TEILO SANT 2025/26

Yn arferol gosodir targed o 95% neu' uwch ar gyfer presenoldeb ysgol gyfan gan y Corff Llywodraethol. Mae polisi wedi ei fabwysiadu a'i adolygu sy'n amlinellu'r camau sydd i'w cymryd gan yr ysgol mewn cydweithrediad â'r Swyddog Lles Addysg i geisio cyrraedd at y targed hwn ac i leihau absenoldebau heb eu hawdurdodi. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â rhieni i ofyn am eglurhad am unrhyw absenoldeb sydd heb ei awdurdodi, gan gael gwared â'r cod N yn y gofrestr. Canran presenoldeb cyffredinol 2024/25 oedd 94.8%.

POLISI AMDDIFFYN PLANT

Mae gan yr ysgol bolisi amddiffyn plant sy'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol. Yr aelodau staff dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yw Mr Ioan Jones a Mrs Maureen Williams. Mae aelod dynodedig o'r corff llywodraethol hefyd â chyfrifoldeb am ddiogelu ac amddiffyn plant.

BLAS O WEITHGAREDDAU'R YSGOL

Darparwyd y profiadau isod gan staff yr ysgol ac aelodau'r gymuned ehangach ar gyfer ein disgyblion.

- Ymweliadau i fusnesau lleol
- Gwers sylfaenol cymorth cyntaf.
- Ymweliad PC Boyt, nyrs yr ysgol a'r frigad dân
- Disgo Calan Gaeaf (CRhA)
- Ymweliadau i Ysgol Maes y Gwendraeth ac Ysgol Bro Dinefwr
- Gŵyl y Synhwyrau yn Llandeilo
- Cystadlaethau'r Urdd (Perfformio, Celf, Chwaraeon a Choginio)
- Côr yn canu yn Ffair Nadolig Dinefwr
- Cwis Llyfrau Cymru
- Trip preswyl Llangrannog
- Ffair Nadolig
- Perfformio yng Ngŵyl Hanes Llandeilo
- Gwylio sioe theatr Brenin March
- Perfformio yn Ffair Nadolig Parc Dinefwr
- Gwasanaeth Garolau yn Ysgol Bro Dinefwr
- Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi
- Ymweliad cwmni Mewn Cymeriad
- Gweithgareddau Gŵyl Lenyddiaeth Llandeilo
- Mabolgampau
- Gweithdy Coginio Cegin y Bobl
- Talent Teilo
- Ffair Hâf

PROFIADAU CHWARAEON

- Hyfforddiant i'r Llysgenhadon
- Traws Gwlad Ysgolion Sir Gâr
- Traws Gwlad Clwstwr Ysgolion Ysgol Bro Dinefwr
- Gŵyl Rygbi'r Scarlets
- Rygbi'r Urdd
- Gwersi Nofio
- Pêl-droed 7 bob ochr Actif Sir Gâr

- Pêl-droed yr Urdd
- Cystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd
- Cystadleuaeth criced yr Urdd
- Gweithdy Tenis

CODI ARIAN

Achub y plant (Siwmper Nadolig) - £262.50
Joseph's Smile - £284.50
Plant mewn Angen - £155.50
Tenovus - £132.00

DYDDIADAU BLWYDDYN ACADEMAIDD 2026/27

Dyddiadau'r tymor a gwyliau ysgol

Nodwch y gallai manylion y calendr hwn newid o ganlyniad i benderfyniadau polisi'r llywodraeth. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn cyfrifoldeb dros unrhyw golledion yn sgîl gorfod newid trefniadau gwyliau oherwydd newidiadau o'r fath.

DATGANIAD ARIANNOL LLAWN 2025/26

Gwelir isod grynodeb o sefyllfa ariannol yr ysgol ar gyfer 2025/2026 (hyd 31/03/2026)

Gwelir isod crynodeb sefyllfa ariannol terfynol eich ysgol ar gyfer 2025/26.		Please see below a summary of your school's final outturn position for 2025/26.
	£	
Gwariant Net 2025/26	816,808	Net Expenditure 2025/26
Dyraniad Ariannu yn ôl Fformwla 2025/26	731,082	Formula Funding Allocation 2025/26
Diffyg Ariannol a Ddygwyd Ymlaen o 2024/25	79,612	Deficit Brought Forward from 2024/25
Diffyg Ariannol yn Cario Ymlaen i 2026/27	165,338	Deficit Carried Forward to 2026/27

Prif Grantiau / Main Grants

Enw'r Grant / Grant Name	**Côd Swydd / Job Code**	**Dyraniad / Allocation £**	**Gwariant / Expenditure £**
GAALL Safonau Ysgol / LAEG School Standards	050786	-68,936	76,183
GAALL Diwygio'r Cwricwlwm / LAEG Curriculum Reform	050793	-2,139	2,526
GAALL ADY / LAEG ALN	050763	-4,392	4,455
Dysgu Proffesiynol / Professional Learning	050590	-3,683	3,862
GDD / PDG	050337	-7,406	12,292
GDDBC/ EYPDG	050838	-2,300	2,863
GDD – Ysgolion heb PYADd / PDG – Schools with no FSM	050588	0	0

Grantiau Eraill / Other Grants

Enw'r Grant / Grant Name	**Côd Swydd / Job Code**	**Dyraniad / Allocation** **£**
GAALL Diwygio ADY / LAEG ALN Refom	050354	-1,000
Grant Codiad Cyflog Athrawon / Teachers' Pay Award Grant	050591	-3,293
Grant Trochi Hwyr / Late Immersion Grant	050675	0
Bwyd a Hwyl / Food and Fun	050743	0
GAALL Arweinir gan Alw / LAEG Demand Led	Amrywiol / Various	-14,120
GAALL Safonau Ysgolion – Ysgolion yn Achosi Pryder / LAEG School Standards Schools Causing Concern	050816	0
Grant Paratoi am Lwyddiant / Primed for Success Grant	050823	0
GDD PDG/ PDG LAC	050962	0

GAIR I GLOI

Wrth inni fyfyrio ar flwyddyn academaidd 2025-26, hoffwn estyn fy niolch diffuant i'n rhanddeiliaid am eu cefnogaeth, eu hymrwymiad a'u gwaith caled parhaus drwy gydol y flwyddyn.

Mae ein disgyblion unwaith eto wedi dangos brwdfrydedd, gwydnwch ac awydd i ddysgu, gan gyflawni llwyddiant o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Rydym yn hynod falch o'u llwyddiannau niferus a'r cyfraniad cadarnhaol y maent yn ei wneud i fywyd yr ysgol bob dydd.

Hoffwn fynegi fy niolch o galon i'n tîm staff ymroddedig, y mae eu proffesiynoldeb, eu gofal a'u hymrwymiad yn sicrhau bod pob plentyn yn derbyn yr addysg a'r gefnogaeth orau bosibl. Er gwaethaf y pwysau ariannol parhaus sy'n wynebu ysgolion, mae ein hathrawon a'n staff cymorth yn parhau i fynd i'r eithaf er mwyn darparu profiadau addysgu a dysgu o safon uchel i bob disgybl.

Roedd yr ysgol yn arbennig o falch o dderbyn ymweliad arolygu interim cadarnhaol iawn bythefnos cyn diwedd tymor yr haf. Roedd y canfyddiadau yn cydnabod nifer o gryfderau'r ysgol ac yn cadarnhau ein bod yn parhau i ddarparu addysgu, dysgu a chymorth o ansawdd uchel i'n disgyblion. Roeddem wrth ein bodd â'r adborth a dderbyniwyd, a byddwn yn annog rhieni i ddarllen yr adroddiad, sydd ar gael ar wefan Estyn.

Hoffwn hefyd ddiolch i'n rhieni a'n gofalwyr am eu partneriaeth barhaus â'r ysgol. Mae eich anogaeth, eich cefnogaeth a'ch ymgysylltiad yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu ein plant i ffynnu'n academaidd ac yn bersonol.

Mae diolch arbennig yn ddyledus i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol (CRhA), y mae eu hymdrechion diflino a'u hymrwymiad drwy gydol y flwyddyn wedi codi arian gwerthfawr er budd yr ysgol. Mae eu gwaith caled yn ein galluogi i ddarparu adnoddau, profiadau a chyfleoedd ychwanegol sy'n cyfoethogi dysgu ein disgyblion ac yn cefnogi eu datblygiad ehangach. Rydym yn hynod ddiolchgar am bopeth y maent yn ei wneud ar ran cymuned ein hysgol.

Hoffwn hefyd estyn fy niolch diffuant i'r llu o wirfoddolwyr sydd wedi cefnogi'r ysgol drwy gydol y flwyddyn. P'un a ydych wedi helpu gyda theithiau addysgol, gwrando ar blant yn darllen, cefnogi digwyddiadau'r ysgol, cynorthwyo gyda gweithgareddau codi arian neu roi o'ch amser mewn ffyrdd eraill, mae eich cyfraniad wedi cael ei werthfawrogi'n fawr. Mae'r amser, yr ymrwymiad a'r ewyllys da yr ydych wedi'u dangos yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gymuned ein hysgol. Waeth pa mor fawr neu fach fu eich cyfraniad, mae eich cefnogaeth wedi bod yn amhrisiadwy ac wedi ein helpu i ddarparu'r profiadau gorau posibl i'n disgyblion.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n Corff Llywodraethu am eu harweiniad, eu her a'u cefnogaeth barhaus. Mae cryfder ein hysgol yn deillio o ymdrechion cydweithredol pawb sy'n ymwneud â hi, ac rwy'n falch iawn o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd eleni.

Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod, rydym yn parhau'n ymrwymedig i ddarparu'r safonau uchaf o addysg a gofal i bob plentyn ac i adeiladu ar y llwyddiannau yr ydym wedi'u cyflawni eisoes gyda'n gilydd.

Ioan Jones
Pennaeth